# Ffurflen gais
# Ffurflen cymeradwyo cwrs

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

## Darllenwch y cyfarwyddiadau canlynol yn gyntaf

Darllenwch yr arweiniad isod cyn cwblhau'r ffurflen hon. Mae serennig (*) ar ôl cwestiwn yn golygu bod arweiniad ar gael. Dylid cwblhau un ffurflen gais ar gyfer pob cwrs sydd i'w gymeradwyo ar gyfer cydnabyddiaeth trwydded Rhentu Doeth Cymru.

## Canllaw ar gyflwyno cais

Rydych yn cyflwyno cais i gymeradwyo cwrs a fydd yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad cymeradwyo.

**Manylion yr ymgeisydd**

Defnyddiwch yr adran hon i roi holl fanylion yr ymgeisydd a'r wybodaeth ohebu. Os ydych chi'n unigolyn yn hytrach na chwmni neu sefydliad nid oes angen i chi gyflwyno rhif cofrestru na chyfeiriad cofrestredig.

**Gwybodaeth am y Cwrs**

Er mwyn darparu hyfforddiant i fodloni gofynion trwyddedu mae angen cymeradwyaeth ar y cwrs ac mae angen awdurdodi'r darparwr hyfforddiant drwy gymeradwyo'r cwrs ac awdurdodi darparwr hyfforddiant. Mae'r olaf yn destun proses ymgeisio ar wahân.

Dylid cwblhau un ffurflen gais ar gyfer pob cwrs sydd i'w gymeradwyo ar gyfer cydnabyddiaeth trwydded Rhentu Doeth Cymru. Ar ôl cael eu cymeradwyo, mae cyrsiau'n ddilys am bum mlynedd.

**Ffioedd cymeradwyo cwrs:**

| Cyrsiau cyflawn | Ffi |
|---|---|
| Cwrs landlord ar-lein | £1,254 |
| Cwrs asiant ar-lein | £1,360 |
| Cwrs cyfunol[1] ar-lein | £2,609 |
| Cwrs cyfunol[1] ystafell ddosbarth | £1,391 |

| Mathau o DPP | Ffi |
|---|---|
| Cwrs DPP ar sail pwnc | £170 |
| Cwrs DPP sylfaenol | £249 |
| Cwrs DPP uwch | £386 |

*[1] ystyr 'cyfunol' yw cais sy'n cynnwys mwy nag un cwrs lle rhennir y cynnwys ar draws y cyrsiau.*

*Mae gwybodaeth ychwanegol am gymeradwyo hyfforddiant ac awdurdodi darparwyr hyfforddiant ar gael ar wahân.*

**Teitl y cwrs:** Ar ôl cymeradwyo eich cais, bydd teitl y cwrs rydych wedi'i nodi yn eich cais yn ymddangos ar eich tystysgrif cymeradwyaeth a bydd angen i chi ddefnyddio'r teitl hwn ar y tystysgrifau a roddir i bobl sydd wedi mynychu a chwblhau eich cwrs.

**Cynulleidfa darged:** Os ydych am ddatblygu un cwrs y gellir ei addysgu yn llawn i asiantau ac yn rhannol i landlordiaid gallwch ei gyflwyno i'w gymeradwyo fel un cwrs. At ddibenion ffioedd, cwrs cyfunol yw hwn.

**Crynodeb o'r cwrs:** Rhaid cynnwys copi llawn o'r maes llafur gyda'ch cais, gan gynnwys defnydd o gyrsiau ar-lein os yw hynny'n berthnasol. Dylech gyfeirio at y ddogfen "Canllaw ar Gymeradwyo Cwrs ac Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant" a chanllaw tebyg ar gyrsiau DPP y gellir eu lawrlwytho o wefan Rhentu Doeth Cymru.

**Asesiad:** Mae angen proses ddilysu gadarn a fydd yn dangos bod y mynychwyr wedi ennill dealltwriaeth dda o'r maes llafur a drafodwyd. Dylech gynnwys papurau prawf enghreifftiol gyda'ch cais a sicrhau y nodir y marc pasio a'i fod yn ddigon cadarn. Efallai na fydd ymarfer dilysu o'r fath bob amser yn berthnasol i gyrsiau DPP; siaradwch â Rhentu Doeth Cymru os nad ydych yn siŵr

**Statws cymhwyster cydnabyddedig:** Os yw eich cwrs yn rhoi cymhwyster i fynychwyr ar ôl ei gwblhau, rhowch fanylion y cymhwyster, gan gynnwys enw'r corff dyfarnu a manylion gohebu. Os nad oes statws cymhwyster iddo, gadewch y blwch yn wag.

**Polisi preifatrwydd:** Drwy lenwi'r ffurflen hon, rydych yn cydsynio i'ch cyrsiau gael eu hysbysebu ar wefan Rhentu Doeth Cymru. I ddarganfod mwy am sut y byddwn yn defnyddio'ch data personol, edrychwch ar y polisi preifatrwydd ar ein gwefan: www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/privacy-policy/

## Manylion yr ymgeisydd

| | |
|---|---|
| Enw'r cwmni / unig fasnachwr | |
| Cyfeiriad gohebiaeth | |
| Cyfeiriad cofrestredig | |
| Rhif cofrestru | |
| Gwefan | |
| Manylion cyswllt | Rhif ffôn swyddfa: ☐<br>E-bost swyddfa: ☐<br>Prif enw cyswllt: ☐<br>Rôl: ☐<br>Rhif ffôn: ☐<br>E-bost: ☐ |

## Gwybodaeth am y cwrs

| | |
|---|---|
| **Teitl llawn y cwrs** | |
| **Dull cyflwyno** | Ar-lein ☐ Ystafell ddosbarth ☐ |
| **Cynulleidfa darged** | Asiant ☐ Landlord ☐ Y ddau ☐ |
| **Asesiad** | Oes ☐ If yes describe the validation method, exam criteria and pass mark<br>Nac oes ☐ Os nac oes, esboniwch sut y gall mynychwr dystio ei fod wedi mynychu'r cwrs |

| | |
|---|---|
| **Teitl y cwrs DPP** | |
| **Math y DPP** | Cwrs DPP at sail pwnc ☐ Cwrs DPP syfaenol ☐ Cwrs DPP uwch ☐ |
| **Cynulleidfa darged** | Asiant ☐ Landlord ☐ Y ddau ☐ |
| **Asesiad** | Oes ☐ Os oes, disgrifiwch y dull dilysu, meini prawf yr arholiad a'r marc pasio<br>Nac Oes ☐ Os nac oes, esboniwch sut all mynychwr dystio iddo fynychu'r cwrs |

## Amodau safonol

Os cymeradwyir eich cwrs at ddibenion Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014; bydd yr amodau safonol canlynol yn berthnasol:

1. Dim ond gan Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig, dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 y gellir cyflwyno'r cwrs hwn/y cyrsiau hyn

2. Rhaid defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.

3. Rhaid i chi roi gwybod i Rhentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i'r dull o ddilysu'r cwrs.

4. Rhaid i chi roi gwybod i Rhentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i gynnwys y cwrs.

5. Rhaid i'r maes llafur fod yn gyfredol a rhaid ei ddiwygio er mwyn iddo adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar Gymru cyn pen 28 diwrnod ar ôl y newid.

6. Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a roddir i fynychwyr y cwrs gydymffurfio â'r hyn y cytunir arno â Rhentu Doeth Cymru adeg eich cais. Rhaid i logo Landlord / Asiant cymeradwy Rhentu Doeth Cymru fod wedi'i nodi arni, neu os nad oes modd, y geiriau 'Cwrs a Gymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru'. Rhaid i'r dystysgrif hyfforddiant gynnwys yr ymwadiad canlynol 'Nid tystiolaeth yw'r dystysgrif hon y cafwyd trwydded gan Rhentu Doeth Cymru; tystio bod yr unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant landlord neu asiant yn unig y mae."

7. Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a gyflwynir arddangos enw cyntaf a chyfenw llawn y mynychwr. Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i dystysgrif newydd gael ei chyflwyno os nad yw tystysgrif yn cynnwys enw cywir yr unigolyn fel y'i nodir yn y cais i Rhentu Doeth Cymru am drwydded.

8. Caiff cyrsiau hyfforddiant a gynhelir mewn ystafelloedd dosbarth eu hasesu gan Archwilydd Rhentu Doeth Cymru. Ar ôl asesu'r cwrs, efallai y bydd Rhentu Doeth Cymru yn cyflwyno argymhellion y mae'n rhaid eu mabwysiadu er mwyn parhau i gymeradwyo'r cwrs.

9. Rhaid i'r lleoliad a ddewisir i gynnal yr hyfforddiant ystafell ddosbarth fodloni safonau hygyrchedd.

10. Rhaid i chi / eich sefydliad lynu at Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Gall methu â chydymffurfio â'r amodau hyn arwain at ddiddymu eich Cymeradwyaeth Cwrs. Efallai y bydd angen amodau pellach yn dilyn asesu eich cais. Os felly, byddwn yn ceisio gwybodaeth bellach gennych.

Mae hawl gennych i wneud sylwadau am yr amodau y cynigir eu hatodi i unrhyw awdurdodiad a roddir. Ticiwch un yn unig:

☐ Dim sylwadau i'w gwneud ☐ Sylwadau wedi'u cynnwys gyda'r cais ☐ Sylwadau i'w cyflwyno o fewn 14 diwrnod

Printiwch enw ____________________ Dyddiad ____________

Llofnod ____________________

Gallwch ddefnyddio'r lle hwn i nodi unrhyw sylwadau ynghylch yr amodau safonol yr ydych am i ni eu hystyried.

## Dull talu

Y ffi i'w thalu [ ] Edrychwch ar y tabl ffioedd yn yr adran arweiniad i gael gwybod am y ffi briodol ar gyfer eich cais.

**Ticiwch y dull talu a ddewisir**

☐ Anfonwch anfoneb ataf

☐ Siec amgaeëdig wedi'i gwneud yn daladwy i Rhentu Doeth Cymru

Swm y siec

☐ Cerdyn debyd/credyd (Visa, MasterCard neu Maestro)

Byddwn yn cysylltu â chi i gael manylion eich cerdyn. Faint o'r gloch sydd orau i gysylltu â chi a beth yw 'ch rhif ffôn.

## Gwirio'r cais

**Cyn anfon y ffurflen hon, sicrhewch eich bod wedi**

1. Darllen a deall y canllaw
2. Gwneud y taliad perthnasol.
3. Cwblhau holl adrannau perthnasol y ffurflen hon.
4. Cynnwys copi o faes llafur, enghreifftiau o arholiadau a marc pasio priodol pob cwrs.
5. Cynnwys copi o bob tystysgrif cwrs a roddir i'r mynychwr ar ôl cwblhau'r cwrs.
6. Llofnodi a dyddio'r datganiad.

Rydym yn codi tâl am bob cais ni waeth a yw'n llwyddiannus ai peidio.

Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn eich cais, gallai eich cais gael ei wrthod a/neu gallai'r gymeradwyaeth ar gyfer eich cwrs gael ei thynnu'n ôl.

Llofnod

Dyddiad

**Dychwelwch y ffurflen wedi ei chwblhau i:**

**Rhentu Doeth Cymru,**
**Blwch SP 1106,**
**Caerdydd,**
**CF11 1UA**

**E-bost: hyfforddiantrhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk**
**Ffôn: 03000 133344**